# Cofnodion Cyfarfod 4/6/2026

**Presennol:** Cyng Rhys Evans, Dilys Evans, Eifion Roberts, Eluned Jones, Sion McGuiness, Ceri Evans, Ken Edwards, Tomos Ffrancon, Haydn Roberts, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Moira Mai, Jacqueline Allen a Huw Symonds.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Rhys Evans. Fe ddiolchodd am yr anrhydedd o fod yn faer y dref, ac fe addawodd i fod yn llais i drigolion y dref ac i wneud ei orau trostynt. Fe groesawodd y Cyng Ceri Dolben Evans i'w chyfarfod cyntaf o'r cyngor, ac fe ddymunodd yn dda i'r Cyng Moira Mai sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Cyfeiriodd hefyd at lwyddiant diweddar tîm rygbi merched y Bala.
2. **Buddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 7/5/26.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**
    i. Cynllun Gwynedd Ni: Adroddwyd fod y gwaith o osod y bocsys blodau a phlannu blodau ar y Stryd Fawr wedi ei gwblhau, a'i fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ddelwedd gyffredinol y dref. Yn ei habsenoldeb fe ddiolchwyd i'r Cyng Jacqui Allen am ei holl waith ynghlwm â hyn.
    ii. Gwaith Celf y Bala: Adroddwyd fod y cais am gyllid i wireddu'r gwaith o adleoli'r gwaith celf yn barod i'w gyflwyno. Cytunwyd i beidio rhoi ystyriaeth i eitemau celf eraill o safle canolfan Cywain.
    iii. Fforwm Adfywio y Bala a Phenllyn: Derbyniwyd cofnodion o'r cyfarfod o'r fforwm a gynhaliwyd ar Ebrill 29ain.
    iv. CCTV: Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Tref Abermaw am eu system CCTV. Nodwyd fod y sustem yn gostus iawn i'w gosod ac i'w chynnal, ond fe gytunwyd i gefnogi unrhyw fwriad gan yr Heddlu neu Gyngor Gwynedd i osod sustem yn y dref.
    v. Mainc Tomen y Bala: Derbyniwyd diweddariad gan Glwb Rotari'r Bala ar eu bwriad i osod mainc ar y Domen er cof am y diweddar Arthur Evans.
    vi. Graffiti Lloches Bws: Adroddwyd fod y graffiti wedi ei lanhau.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan. Fe longyfarchodd y cyngor ar eu holl waith yn addurno'r dref gyda'r raciau beics, y bocsys blodau a'r faner ar y Grin. Dywedodd y byddai'n trefnu fod Tim Tacluso Ardal Ni yn dod i gynorthwyo gyda'r gwaith chwynnu yn y dref, hyn i gynnwys ardal Ffynnon Beuno. Dywedodd fod Openreach wedi bod yn ail osod y palmentydd ger y Llew Gwyn. Cafwyd trafodaeth ar y parcio afreolus ger Llyn Tegid, a dywedodd fod cyfarfod wedi ei drefnu at Fehefin 11eg gyda Chyngor Gwynedd i drafod problem campervans yn aros dros nos.

**6. Is-bwyllgorau:**

**Is Bwyllgor Asedau:** Cafwyd trafodaeth ar gyflwr meinciau yn ardal Llyn Tegid, ond fe nodwyd nad oedd y meinciau penodol yma yn eiddo i'r Cyngor Tref. Nodwyd fod angen gosod baneri ar Domen y Bala a ger Canolfan Hamdden Byw'n Iach Penllyn.
**Is Bwyllgor Tref Gyfeillgar:** Ni chafwyd adroddiad.
**Is Bwyllgor Bioamrywiaeth:** Nodwyd fod y gwaith o osod y bocsys blodau a phlannu blodau wedi ei gwblhau, a diolchwyd i'r Cyng Jacqui Allen am arwain ar y gwaith yma.
**Is Bwyllgor Cyllid:** Nodwyd fod yr is bwyllgor wedi cyfarfod cyn y cyfarfod llawn o'r cyngor – argymhellion yn eitem 8 o'r agenda.
**Grŵp Twristiaeth Gynaliadwy:** Adroddwyd fod y grŵp wedi ei ail sefydlu, a'u bod yn ceisio rhyddhau cyllid i weithio ar wefan hyrwyddo'r dref.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Grŵp Busnesau'r Bala:** Nodwyd y cynhelir eu cyfarfod blynyddol ar Fehefin 23ain.
**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod y cwmni wedi llwyddo gyda chais loteri i ariannu Swyddog Marchnata Cymunedol i fudiadau'r ardal.

7. **Materion Cynllunio**:
Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

*8.* **Materion Cyllid:**

- **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £23,824 yn y cyfri cyfredol, £27,460 yn y cyfri cadw a £342 yng Nghronfa'r Maer ddiwedd Mai.
- **ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, cyflog y Clerc, anfonebau Un Llais Cymru am sesiwn hyfforddiant ac anfoneb Hill & Roberts am brosesu PAYE y cyngor.
- iii. Nodwyd derbyn ad-daliad TAW y cyngor am 2025/2026.
- iv. Cyflwynwyd cyfrifon terfynol y cyngor am 2025/2026 ac fe gytunwyd i'w mabwysiadu.
- v. Nodwyd derbyn Adroddiad Archwiliwr Mewnol y cyngor, a rhoddwyd sylw i'w argymhelliad y dylid cael awdurdodiad deuol i daliadau ar lein. Cytunwyd i wneud ymholiadau gyda HSBC ynglŷn â hyn. Awdurdodwyd y maer a'r Clerc i arwyddo Ffurflen Flynyddol y cyngor am 2025/2026 ac i anfon y wybodaeth ymlaen i Archwilio Cymru.
- vi. Cytunwyd i drosglwyddo £10,000 i'r cyfrif cadw a £400 i Gronfa'r Maer.

vii. Derbyniwyd cais am gymorth ariannol gan Glwb Pêl-droed Ieuenctid y Bala. Gofynnwyd i'r Maer ystyried gwneud cyfraniad o Gronfa'r Maer am y tro, ac i ofyn i'r clwb am gais pellach cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

**9. Gohebiaeth:**

i) Cyngor Gwynedd: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 2il i ystyried Strategaeth Gwaith Ieuenctid Gwynedd.

ii) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am eu Rhaglen Hyfforddiant dros yr haf ac am eu Cynhadledd Flynyddol.

iii) Chwyn: Derbyniwyd sylwadau am y chwyn sydd i'w weld mewn gwahanol rannau o'r dref. Cytunwyd i ymateb trwy ddweud fod aelodau'r cyngor wedi bod werthi'n chwynnu ac yn plannu blodau, a bod bwriad i gael cymorth pellach gan Dim Tacluso Ardal Ni.

iv) Parcio a campervans: Derbyniwyd sylwadau am barcio afreolus a champervans yn aros dros nos – gweler sylwadau y Cyng Dilwyn Morgan uchod.

v) Stryd y Fron: Derbyniwyd rhybudd y bydd Stryd y Fron yn cau dros dro ar Fehefin 17eg ar gyfer gwaith hanfodol.

vi) Ardoll Ymwelwyr: Derbyniwyd ymgynghoriad gan Gyngor Gwynedd ar y bwriad i weithredu Ardoll Ymwelwyr. Cytunwyd i'w ystyried yng nghyfarfod mis Gorffennaf o'r cyngor.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Nid oedd materion pellach i'w trafod.

Bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 2 Gorffennaf 2026.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)